Polisi Amddiffyn Plant ac Oedolion Agored i Niwed o fewn Darpariaeth Hyfforddiant SNAP Cymru

1 Diffiniad

Gellir diffinio'r broses o ddiogelu ac amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn nhermau diogelu'r fath grwpiau rhag trais neu esgeulustod corfforol, emosiynol neu ryw. Mae SNAP Cymru yn cydnabod fod gan bob dysgwr hawl sylfaenol i gael ei amddiffyn rhag niwed ac y dylai gael y cyfle i gael y budd mwyaf o'i gyfleoedd addysgol.

2 Cynulleidfa

Y gynulleidfa a fwriedir ar gyfer y ddogfen hon yw:

• Staff, gwirfoddolwyr a dysgwyr SNAP Cymru ac unrhyw hyfforddwyr neu siaradwyr gwadd sydd ynghlwm wrth gyflwyno darpariaeth SNAP CYMRU, AGORED

Mae'r polisi hwn yn rhoi sylw i'r holl gyrsiau achrededig a gyflwynir gan SNAP CYMRU yn ogystal â'r rhai nad ydynt yn cael eu hachredu.

3. Cyflwyniad

3.1 O ran deddfwriaeth, caiff plentyn ei ystyried fel rhywun nad ydyw eto wedi cyrraedd ei ben-blwydd yn ddeunaw oed. Felly, drwy gydol y ddogfen hon, caiff "plant" ei ddefnyddio i ddisgrifio "plant a phobl ifanc". Nid yw'r ffaith fod plentyn wedi cyrraedd un ar bymtheg oed, yn byw yn annibynnol neu mewn addysg bellach, yn aelod o'r lluoedd arfog, yn yr ysbyty neu o dan y system gyfiawnder ieuenctid yn newid ei statws neu ei hawl i gael mynediad i wasanaethau neu amddiffyniad.

3.2 Yn nogfen Comisiwn Law (1997), "Who decides? Making decisions on behalf of mentally incapacitated adults", y diffiniad eang o oedolyn agored i niwed yw person sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn neu rywun sydd angen, neu a all fod angen gwasanaethau gofal cymunedol oherwydd anabledd neu salwch meddwl, oedran neu salwch ac nad yw'n gallu gofalu amdano/i ei hun, neu sy'n methu ag amddiffyn ei hun rhag perygl sylweddol o gael ei (h)ecsbloetio". Mae'r prif gategorïau o bobl sy'n dod o dan y diffiniad hwn yn cynnwys pobl a chanddynt anabledd neu anhawster dysgu; nam corfforol neu synhwyrol; salwch meddwl gan gynnwys dementia; pobl a chanddynt broblemau cam-drin sylweddau; a'r sawl sy'n hen a bregus. At bwrpas y diffiniad hwn, ystyrir bod "gwasanaethau cymunedol" yn cynnwys yr holl wasanaethau gofal sy'n cael eu darparu mewn unrhyw ganolfan neu gyd-destun.

3.3 Mae lles y **plentyn yn hollbwysig yn yr holl ystyriaethau lles ac amddiffyn. Mae'n gyfrifoldeb ar bawb i amddiffyn plant.** Mae amddiffyn plant yn rhan o amddiffyn a hyrwyddo lles. Mae hyn yn cyfeirio at y gweithgaredd sy'n cael ei gwblhau er mwyn diogelu plant penodol sy'n dioddef neu'n wynebu'r risg o ddioddef niwed sylweddol o ganlyniad i gam-drin neu amddifadu. Caiff niwed ei ddiffinio fel

camdrin neu nam ar iechyd neu ddatblygiad, gan gynnwys, er enghraifft, nam sy'n datblygu o weld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin.
3.4 Ceir pedwar categori camddefnydd: emosiynol, esgeulustod, corfforol a rhyw mewn perthynas â phlentyn neu oedolyn agored i niwed.
• Camdrin emosiynol yw trin plentyn yn emosiynol wael yn barhaus fel bod hynny'n achosi effaith andwyol ddifrifol barhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn.
• Esgeuluso yw esgeuluso plentyn yn ddifrifol neu'n barhaus neu fethiant i amddiffyn plentyn rhag bod yn agored i unrhyw fath o berygl, gan gynnwys oerfel a newyn, neu fethiant enbyd i gyflawni agweddau pwysig o ofal, gan arwain at beri nam difrifol i iechyd neu ddatblygiad y plentyn, gan gynnwys methu â ffynnu anorganig. Gall camdrin corfforol ymddangos ar ffurf taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldanu, boddi, mygu, neu fel arall, achosi niwed corfforol i blentyn. Gall niwed corfforol hefyd gael ei achosi pan fydd rhiant neu'r un sy'n gofalu yn ffugio neu'n achosi salwch mewn plentyn y mae'n gofalu amdano. Camdrin rhywiol yw gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol p'un ai yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd neu beidio, gan gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd lle ceir treiddio, neu weithredoedd heb dreiddiad; neu weithgareddau heb gyswllt corfforol, megis cael plant i gymryd rhan wrth edrych ar neu gynhyrchu deunydd pornograffig neu wylio gweithgareddau rhywiol; neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n rhywiol amhriodol.
• Yn ogystal â'r categorïau uchod, gall oedolion agored i niwed hefyd brofi camdriniaeth ariannol neu faterol sy'n cynnwys lladrata, twill, pwysau ynghylch ewyllys, eiddo neu etifeddiaeth, neu gamddefnyddio buddiannau.
3.5 Caiff amddiffyn a hyrwyddo lles plant ac oedolion agored i niwed ei ddiffinio yn nhermau amddiffyn y fath grwpiau a phobl rhag camdriniaeth; atal nam ar yr iechyd neu ddatblygiad; sicrhau bod gan blant ac oedolion agored i niwed gyfleoedd ecwitïol i gael darpariaeth o ran gofal diogel ac effeithiol; a chwblhau'r rôl fel y gall plant gael y cyfleoedd gorau mewn bywyd a mynd i fyd yr oedolyn yn llwyddiannus ac er mwyn i oedolion agored i niwed fyw eu bywydau wedi'u hamddiffyn rhag camdriniaeth a chael cyfleoedd i adfer os ydyw'n briodol.

4. Y Fframwaith Deddfwriaeth Cenedlaethol

4.1 Yn nhermau diogelu'r broses o amddiffyn plant, caiff polisïau SNAP Cymru eu dylanwadu gan y ddeddfwriaeth ganlynol:
• Deddf Plant 1989
• Deddf Addysg 1996
• Deddf Tai 1996
• Deddf Trwyddedu 1996
• Deddf Tai 2004
• Deddf Plant 2004
• Deddf Adsefydlu Tramgwyddwyr 1974
4.2 Mae SNAP Cymru yn gweithredu o fewn yr arweiniad canlynol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru:
• Diogelu ac Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc: Canllaw enghreifftiau arfer da ar gyfer cyrff dyfarnu (2006)
• Diogelu Plant: Cydweithio Dan Ddeddf Plant 2004 (2006)
4.3 Yn nhermau diogelu ac amddiffyn oedolion agored i niwed, caiff polisïau Agored Cymru eu dylanwadu gan y canllawiau a'r ddeddfwriaeth oddi mewn:
• In Safe Hands: Implementing Adult Protection Procedures in Wales (2000)

4.4 Mae SNAP Cymru yn cydnabod y gall camdrin ymddangos ac y mae'n ymddangos o ganlyniad i agweddau ar neilltuo a rhagfarn. Dylid darllen y polisi hwn yn unol â'r Polisi Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

4.5 Does dim deddfwriaeth na chorff o gyfreithiau cyffredin sy'n benodol berthnasol i ddiogelu Oedolion Agored i Niwed yn erbyn camdriniaeth. Fodd bynnag, mae nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n ceisio darparu lefel sylweddol o amddiffyniad. Mae'r rhain yn cynnwys: cyfreithiau troseddol; cyfraith gyffredin; cyfraith sifil. Mae nifer yn rhagor o Ddeddfau a chanllawiau ychwanegol ar ben y rhai a restrir isod.

Sex Offenders Act 1987

Sex Offenders Act 1987 allows for persons who have been convicted by the Criminal Courts or have received a final warning (young offender) in relation to a sexual offence to have their names and addresses entered on a register and a risk assessment made by the Police, Probation and other agencies.

Deddf Safonau Gofal 2000

Bwriad Deddf Safonau Gofal 2000 yw diogelu pobl agored i niwed rhag camdriniaeth a chael eu hamddifadu, yn ogystal â hyrwyddo safonau uwch o ran ansawdd y gofal y mae pobl yn ei dderbyn. Mae'r Ddeddf hon yn darparu lefel ychwanegol o ddiogelwch ar gyfer oedolion agored i niwed. Mae'r Ddeddf yn gwneud trefniadau ar gyfer rhestr o bobl sy'n cael eu barnu'n anaddas i weithio ag oedolion agored i niwed yn y ganolfan ofal.

Statudau perthnasol i hawliau unigolion a rhannu data personol a chyfrinachol:

Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995

Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn darparu hawliau i bobl a chanddynt anabledd (oedolion agored i niwed) a chanddynt anabledd neu yr oedd arfer bod anabledd ganddynt y mae'n ei gwneud yn anodd iddynt gwblhau gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Rhaid i'r anhawster neu'r anabledd fod yn un sylweddol a rhaid bod ganddo effaith tymor hir, h.y. rhaid iddo bara - neu rhaid bod disgwyl iddo bara - deuddeg mis. Hefyd, rhoddir sylw i gyflyrau sy'n effeithio ychydig ar weithgareddau o ddydd i ddydd, ond y mae disgwyl iddynt leihau o ran eu heffaith. Hefyd, caiff anffurfio difrifol ei gynnwys fel anabledd. Rhaid i gyflogwyr a phobl sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau i'r cyhoedd ddilyn mesurau rhesymol er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn pobl a chanddynt anabledd. Cyhoeddir dwy ddogfen gan y llywodraeth i ddarparu canllawiau pellach ynghylch y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd: Codau Ymarfer mewn perthynas â chyflogaeth a chyflwyno gwasanaethau; Canllawiau ynghylch diffinio anabledd; Gall tribiwnlysoedd neu'r llysoedd ddefnyddio'r ddwy ddogfen er mwyn dehongli'r gyfraith.

Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn cynnwys erthyglau megis: Hawl i Fyw; Atal Artaith, Triniaeth Annynol, Ddiraddiol; Atal Caethwasiaeth a Llafur; Hawl i Ryddid a Diogelwch; Hawl i Barch at Fywyd Preifat a Theuluol; Hawl i Briodi; Atal Gwahaniaethu; Atal Camdriniaeth o Hawliau; Diogelu Eiddo; Hawl i Addysg.

Deddf Diogelu Data 1998

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn gofyn bod unrhyw ddatgeliad o ddata personol yn unol â chyfraith gyffredin a statudol, e.e. dyletswydd o gyfrinachedd cyfraith gyffredin, Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae'r egwyddorion diogelu data yn gofyn bod y fath wybodaeth yn cael ei chasglu a'i phrosesu'n deg ac yn gyfreithlon; y caiff ei datgelu dan amgylchiadau priodol; ei bod yn gywir, yn berthnasol ac nad yw'n cael ei chadw'n hwy nag sydd angen, a'i bod yn cael ei chadw'n ddiogel.

Deddf Datgelu Er Lles y Cyhoedd 1998 ('Chwythu'r chwiban')
Mae datgelu er llys y cyhoedd neu chwythu'r chwiban yn ymwneud â datgelu neu gyfleu gwybodaeth ynghylch possible camymddygiad unigolion neu gyrff, naill ai'n fewnol neu'n allanol, i awdurdod allanol.

5. Polisi

5.1 Mae SNAP Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed ym mhob agwedd ar ei weithgarwch hyfforddi.

5.2 Bydd SNAP Cymru yn sicrhau bod:

• aelod hŷn o staff yn cael ei glustnodi i fod â chyfrifoldeb llawn dros ymdrin â'r holl faterion yn ymwneud â diogelu. Bydd SNAP Cymru hefyd yn clustnodi rhywun arall a all weithredu yn absenoldeb y person penodedig

• hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed yn cael ei ddarparu i'r holl staff, gan gynnwys gwirwyr allanol, adolygwyr ansawdd a staff tymor byr a chontractau tymor sefydlog

• canllawiau clir yn cael eu darparu i'r holl staff, gan gynnwys gwirwyr allanol ac adolygwyr ansawdd ynghylch sut mae ymddwyn ac ymateb i ystod o faterion diogelu plant ac oedolion agored i niwed. Disgwylir i'r holl staff weithredu'n benderfynol ac yn hyderus, ac mae disgwyliad pendant y byddant yn gwneud hynny. Mae diogelwch a lles plant ac oedolion agored i niwed yn hanfodol bob amser.

Ym mhob sefyllfa lle cafwyd honiad neu amheuaeth fod oedolyn sy'n agored i niwed yn cael ei gamdrin, y brif ystyriaeth yw diogelu'r plentyn neu'r oedolyn agored i niwed. Bydd Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud ymholiadau ynghylch pob trosglwyddiad o ran diogelu oedolion agored i niwed. Os yw'r ymholiadau hyn yn darganfod fod angen cynnal ymchwiliad, yna dechreuir y broses ymchwilio fel arfer o fewn 24 awr ac fe'i cwblheir cyn gynted â phosib ar ôl hynny.

Mae'r prif gyfrifoldeb dros ddiogelu oedolion agored i niwed yn nwylo'r awdurdod lleol, sydd â chyfrifoldeb dros ymchwilio i unrhyw sefyllfa lle ceir digon o achos dros amau bod oedolyn agored i niwed yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol. Mae gan yr Awdurdod Lleol rym i gymryd pa bynnag gamau ag y gall yn gyfreithiol er mwyn diogelu'r oedolyn agored i niwed, gan gynnwys dechrau camau gofal. Caiff y cyfrifoldebau hyn eu gweithredu'n bennaf gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol.

Camau i'w cymryd gan staff neu wirfoddolwyr SNAP Cymru os oes amheuaeth o gamdriniaeth:

- Os oes achos dros gredu bod plentyn neu oedolyn agored i niwed yn dioddef neu'n wynebu'r risg o ddioddef niwed sylweddol, dylai aelod staff SNAP Cymru (sy'n cynnwys gwirfoddolwyr) gysylltu â'i oruchwyliwr neu reolwr llinell ar unwaith i drafod y mater.
- Ar ôl trafod, os yw'r gofid yn parhau yna dylai'r goruchwyliwr neu'r rheolwr llinell drosglwyddo'r mater i'r Tîm yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn yr ardal lle mae'r plentyn yn byw. (bydd manylion yn Llawlyfr Canllawiau POVA pob Adran Gwasanaethau Cymdeithasol neu yn y llawlyfr ffôn)
- Os nad yw goruchwyliwr neu reolwr llinell ar gael ar gyfer ymgynghoriad, dylai'r aelod staff neu'r gwirfoddolwr gysylltu â Phrif Swyddfa SNAP Cymru. Os nad oes unrhyw un ar gael ar gyfer ymgynghoriad (sy'n annhebygol iawn), ni ddylai'r aelod staff neu'r gwirfoddolwr oedi cyn trosglwyddo'r mater i'r Gwasanaethau Cymdeithasol fel yr amlinellir uchod.

- Os yw sefyllfa'n codi y tu allan i oriau swyddfa, dylid gwneud trosglwyddiad i'r tîm Dyletswydd Brys yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a fydd yn cymryd y cam cyntaf angenrheidiol.
- Rhaid cadarnhau'r holl drosglwyddiadau'n ysgrifenedig gan ddefnyddio'r proforma a ddarperir gyda Llawlyfr POVA yr Awdurdod Lleol neu fel y manylir yn benodol fel arall gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd SNAP Cymru yn gwneud popeth o fewn ei allu i gydweithio â'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei ymchwiliad dilynol.
Rheolwyr POVA SNAP Cymru

Dethol Staff a Gwirfoddolwyr

- Bydd disgwyl i ymgeiswyr am waith cyflogedig neu wirfoddol ddarparu o leiaf un canolwr a all nodi a fu unrhyw ofid ynghylch gwaith yr unigolyn dan sylw â phlant neu oedolion agored i niwed.
- Dylai'r cyfweliad dethol archwilio profiad yr ymgeisydd o weithio â phlant ac oedolion agored i niwed neu eu cyswllt â hwy, yn ogystal â'u hymrwymiad i'w diogelu.
• bydd yr holl staff a gwirfoddolwyr a fydd yn gweithio â phlant ac oedolion agored i niwed neu a fydd yn dod i gysylltiad â hwy yn destun datganiad cofnod troseddol CRB pellach. Dim ond staff sy'n cael eu barnu'n addas i weithio â'r grwpiau hyn y bydd SNAP Cymru yn eu recriwtio a'u penodi, yn seiliedig ar eu datganiadau ynghylch euogfarnau anhreuliedig ac wedi eu heithrio, yn unol â Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974.

Cofnodion

• cedwir cofnodion ynghylch yr holl faterion diogelwch lle maent yn nodi deilliant mewn perthynas â chyfrifoldebau ac atebolrwydd SNAP Cymru
• caiff adroddiadau ynghylch unrhyw achosion o gamdriniaeth eu cyflwyno i Reolwyr SNAP Cymru ac i'r gwasanaethau allanol priodol h.y. Awdurdod yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Caiff hyn ei gynnal drwy ddilyn camau adrodd priodol o fewn SNAP Cymru.
• caiff y polisi ei adolygu yn dilyn pob digwyddiad arwyddocaol, ac yn absenoldeb y fath ddigwyddiad, bydd yn digwydd bob yn ail flwyddyn.
5.3 Bydd SNAP Cymru yn darparu hyfforddiant rheolaidd i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi, yn ogystal â'r gweithdrefnau trosglwyddo priodol a'r trywydd cyfrifoldebau wrth ymdrin â materion diogelwch.

6. Pynciau Perthnasol

Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
http://www.charity-commission.gov.uk/index.asp
Diogelu Plant: Cydweithio Dan Ddeddf Plant 2004 (2006)
Llywodraeth Cynulliad Cymru | Mewn Dwylo Diogel: Cyflwyno Gweithdrefnau Diogelu Oedolion yng Nghymru, Gorffennaf 2000
Mewn Dwylo Diogel: Cyflwyno Gweithdrefnau Diogelu Oedolion yng Nghymru (2000)

7. Cyfrifoldeb dros y Polisi a'i adolygu

Awdur y Polisi: Amanda Daniels
Eiliwyd gan: Caroline Rawson
Cymeradwywyd: Mai 2010
Wedia ei adolygu: Mai 2013
Dyddiad adolygu: Mai 2016